

Y Torah ysgrifenedig a llafar

Nid credoau ffurfiol nac awdurdod sefydliadol canolog yw prif bwyslais Iddewiaeth ond, yn hytrach, y Torah. Mae ehangder y term yma ynddo'i hun yn dynodi hyblygrwydd ac egni'r grefydd. Yr hyn sy'n hollbwysig yw'r cyfarwyddyd y credir fod Duw wedi ei roi ar gyfer byw bywyd Iddewig, a'r cyfarwyddyd hwn, ynghyd â'i holl bosibiliadau ar gyfer yr amgylchiadau amrywiol a chyfnewidiol y caiff yr Iddewon eu hunain yn byw ynddyn nhw, yw'r peth mae'n rhaid ei drosglwyddo. Rydym wedi nodi'r gair *masorah* ('traddodiad') i ddisgrifio testun y Beibl Hebraeg, fel y cafodd ei gopïo'n ofalus. Rydym wedi dysgu'r gair *midrash* am yr esboniadau ysgrifenedig ar y testun beiblaidd. Ystyr *midrash*, o darddiad Hebraeg sy'n golygu 'chwilio' neu 'durio', yw archwilio'r ysgrythur i ddarganfod ei ystyr llawn. Nid damwain mo'r ffaith fod yr holl enwau ar glasuron llenyddiaeth Iddewig yn gysylltiedig â'r geiriau Hebraeg neu Aramaeg am ddysgu, hynny yw, â'r hyn mae'r naill berson yn ei ddysgu gan y llall, sy'n arwain yn ôl yn y pen draw at Dduw. Heblaw am *midrash*, mae gennym *mishnah*, o wraidd sy'n golygu 'ailadrodd' ac, yn dilyn hynny, 'dysgu', *talmud*, o'r ferf 'dysgu', a *gemara*, o'r Hebraeg am 'gwblhau' drwy astudio dro ar ôl tro. *Tannaim* ('athrawon') yw'r enw a roddir i athrawon y Torah cyn bod y Mishnah ysgrifenedig yn bod – er mai 'doethion' oedd yr enw mwy arferol arny'n nhw yn eu hoes eu hunain – ac mae'r rhai sy'n dod ar ôl y Mishnah ysgrifenedig yn cael eu galw'n *Amoraim* ('dehonglwyr').

Y rheswm am hyn oll yw'r argyhoeddiad mai'r hyn a ddatgelwyd ar Fynydd Sinai oedd y Torah, nid yn unig ar ystyr pum llyfr Moses, ond hefyd ar ystyr esboniad manwl o'r deddfau a'r credoau a geir yn y pum llyfr hyn. Dechreuwyd cyfeirio at y cyntaf fel y 'Torah ysgrifenedig' a'r ail fel y 'Torah llafar'. (Ystyr llythrennol y term Hebraeg yw 'Torah ar gof'.) Cafodd y Torah llafar ei luno a'i drosglwyddo ar gof, gan broffwydi i ddoethion, gan feistri i ddisgyblion, o gyfnod Moses ei hun tan iddo gael ei roi mewn ffurf ysgrifenedig yn y Mishnah, tua 200 OG, ac yn y dogfennau a ddilynodd y Mishnah, yn bennaf oll, y Talmud.

Y bobl allweddol yn y gadwyn

Mynegwyd y gred yma mewn cadwyn ddi-fwlch o draddodiad, gydag Esra (y cyntaf o 'Wŷr y Cynulliad Mawr') tua 444 COG a'r holl athrawon a ddaeth wedyn yn ddolenni ynddi, yn ei ffurf enwocaf yng ngeiriau agoriadol traethawd (*tractate*) a ychwanegwyd at y Mishnah tua 250 OG. Mae'r traethawd yma,

Yn y bennod hon byddwch yn dysgu:

- sut y mynegir cred ac arfer Iddewig yn y Torah
- ysgrifenedig a llafar
- am drafodaethau manwl Rabbinaid cyfnod yr Ail Deml
- am y crynodebau o'r Torah llafar mewn Codau Cyfreithiol pwysig, yn enwedig y *Shulchan Aruch*.

03

cadwyn
traddodiad –
y Talmud

yma. Yr un a fyddai'n dylanwadu'n fwyaf parhaol ar ddatblygiad Iddewiaeth oedd mudiad y Phariseaid, a Hillel a Shammai oedd dau o'i athrawon cynharaf ac enwocaf. Dechreuodd pobl alw'r athrawon yma yn *rabbi* ('fy meistr', yn yr ystyr 'fy athro'), a dyna darddiad y term 'Iddewiaeth rabinaidd'. Roedd Hillel a Shammai yn aml yn anghytuno, a chafodd gwahanol farn eu dwy ysgol eu cofnodi'n helaeth. Yn y gyfrol yn y Mishnah (ysgrifau rabinaidd) yn ymwneud â Bendithion (yn yr Hebraeg, *Berachot*), cawn drafodaeth am drefn y bendithion sydd i'w hadrodd dros bryd bwyd. Yn y gyfrol sy'n ymwneud â dogfennau ysgaru (yn yr Hebraeg, *Gittin*), cawn wahanol ddehongliadau o Deuteronomium 24: 1 sy'n dweud, yng ngeiriau'r Beibl Cymraeg Newydd:

Os bydd dyn wedi cymryd guraig a'i phriodi, a bihau wedyn heb fod yn ei fodloni am iddo gael rhywbeth anwedddus ynddi, yna y mae i ysgrifennu llythyr ysgar iddi...

Mae'r rheswm dros ysgaru yn dibynnu ar ystyr 'rhywbeth anwedddus ynddi'. Gan ychwanegu gair neu ddau i wneud yr ystyr yn fwy clir, gallwn gyfieithu'r darn yn y Mishnah fel hyn:

Mae ysgol Shammai yn dweud, Ni chaiff dyn ysgaru ei wraig oni'd yw wedi canfod rhywbeth anwedddus ynddi, felly y dywedir, 'Am iddo gael rhywbeth anwedddus ynddi'. Ond mae Ysgol Hillel yn dweud, Hyd yn oed pe bai'n coginio'n wael, felly y dywedir 'Am iddo gael rhywbeth anwedddus ynddi'. Dywed Rabbi Akiva, 'Hyd yn oed os yw wedi dod o hyd i rywun harddach na hi, felly y dywedir'

Roedd dilynwy'r Shammai yn credu mai dim ond ar sail perthynas rywiol y tu allan i briodas y gellid caniatáu ysgariad, rhai Hillel yn credu y gellid ysgaru am resymau llawer llai difrifol, a dilynwy'r Akiva yn credu y gellid am unrhyw reswm o gwbl. Dydy'r Mishnah ddim yn cynnig barn derfynol, ond mae'n amlwg fod rabiniaid diweddarach wedi cynghori yn erbyn ysgaru, fel y gwelwn yn y Talmud (trafodaeth o'r Mishnah), er enghraifft: 'Os bydd dyn yn ysgaru ei wraig gyntaf, bydd hyd yn oed yr allor yn wylo dagrau' (*Gittin* 90b).

Yn dilyn Hillel a Yohanan, Akiva yw trydydd aelod y triawd o rabiniaid a ddatblygodd draddodiadau cyfreithiol Iddewiaeth i gynhyrchu'r Mishnah, ac iddo ef y priodolir y casgliad o rai o'r dywediadau sydd ynddo. Bu farw'n ferthyr wedi Gwrthryfel Bar Cochba yn erbyn Rhufain tua 135 OG.

Pirke Avot ('Dywediadau'r Tadau' neu weithiau 'Moeseg y Tadau'), yn aml yn cael ei argraffu mewn llyfrau gweddol oherwydd fod ei ddysgeidiaeth foesol mor bwysig ac mor glir. Mae'n dechrau gyda'r geiriau:

Derbyniodd Moses y Torah ar Sinai, a'i drosglwyddo i Josua; rhoddodd Josua ef i'r bynafgwyr, yr bynafgwyr i'r proffwydi, a throsglwyddodd y proffwydi ef i Wyr y Cynulliad Maur. Dywedodd y rhain dri pheth: Byddwch yn bywlllog wrth farnu; magwch lawer o ddisgyblion; a gwnewch glawdd o gumpas y Torah. Seimon y Cyflawn oedd un o'r olaf o aelodau'r Cynulliad Maur. Arferai ddweud, Ar dri pheth y seiliwyd y byd: ar y Torah, ar wasanaeth Duwfol, ac ar arfer elusengarwch. Derbyniodd Antigonos o Socho'r traddodiad o law Seimon y Cyflawn...

Adnodau lawer yn ddiweddarach, darllenwn:

Derbyniodd Rabban Yochanan, fab Zakkai, y traddodiad gan Hillel a Shammai. Arferai ddweud, Os wyt wedi dysgu llawer o'r Torah, paid â meddwl dy fod yn rhinweddol, oherwydd i'r diben hun y cefais dy greu. Roedd gan Rabban Yochanan, fab Zakkai, bum disgybl, sef Rabbi Elieser, fab Hyrcanus, Rabbi Josua, fab Chananya, Rabbi José yr Offeiriad, Rabbi Simeon, fab Nathaniel, a Rabbi Elasar, fab Arach. (2: 9-10)

Mae'r rhestr yn cynnwys enwau allweddol yn natblygiad Iddewiaeth Rabinaidd, neu 'Iddewiaeth y Torah deublyg', yng ngeiriau'r ysgolhaig, Jacob Neusner. Tybir mai'r cymeriad canolog, Yochanan ben Zakkai, oedd ei sylfaenydd. Wedi i'r Rhufeiniaid drechu Jerwsalem, sefydlodd ganolfan yn Yavneh (Jamnia oedd yr enw Groegaidd) yng ngogledd Palesteina ac yno, tua 100 OG, y penderfynwyd pa lyfrau fyddai'n cael eu derbyn fel ysgrifur sanctaidd. Does neb yn gwybod llawer amdano yn bersonol, ond mae'n bwysig oherwydd ei bwyslais ar astudio'r Torah.

Amrywiaeth Iddewiaeth yr Ail Deml

Sefydlodd y ddau rabbi gafodd eu henwi o'i flaen ef, Hillel a Shammai, ysgolion ar gyfer astudio'r Torah. Roedd Iddewiaeth yn y ganrif gyntaf OG ymhell o fod yn unfurf, gyda nifer o sectau neu fudiadau gwahanol yn ymfurfio yn y cyfnod hynod greadigol

Byw fel pobl sanctaidd heb y Deml

Teuuoedd offeiriadol oedd y teuluoedd a ddychwelodd o Fabilon wedi'r Gaethglud. Y Deml oedd canolbwynt adferiad y genedl yn ôl llyfrau Lefiticus a Numeri, a llyfrau beiblaidd eraill â'u bryd ar godi gwahanfur uchel rhwng yr Iddew a phawb arall. Aeth yn hanfodol bwysig diffinio beth oedd yn wahanol am yr Iddewon, a chraidd y gwahaniaeth hwn oedd eu bod wedi eu cysegru, eu gwneud yn sanctaidd, wedi eu gosod ar wahân. Byddai hyn yn cael ei fynegi drwy drefn gymdeithasol a naturiol bywyd Iddewig ond, uwchlaw popeth arall, roedd i'w fynegi drwy wasanaeth yn y Deml. Y gwasanaeth yma, a'r allor yn ganolbwynt iddo, oedd yn diffinio sancteiddrwydd, yn cynnig arwahanrwydd ac felly'n rhoi ystyr i fywyd Iddewig.

Dinistr yr Ail Deml

Pan ddinistriodd y Rhufeiniaid yr Ail Deml yn 70OG, roedd ailddiffinio'r sancteiddrwydd yma yn hanfodol. Roedd y Deml a'r offeiriadaeth wedi mynd, a'r peth pwysig yn awr oedd sut i sancteiddio bywyd y genedl gyfan. Er bod y ddolen gyswllt rhwng arweinwyr y cyfnod cyn dinistr y Deml ac ar ôl hynny efallai wedi cael ei orbwysleisio er mwyn tanlinellu awdurdod, mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn awgrymu mai'r Phariseaid, â'u pwyslais sylfaenol ar sancteiddrwydd bywyd bob-dydd, a awgrymodd sut oedd mynd ati. Yn hyn, fe gawson nhw gymorth grŵp profesiynol yr ysgrifenyddion, oedd â gwybodaeth fanwl am y Beibl, i ddehongli'r traddodiad a sicrhau fod ei ddefodau'n gywir. Mae'r gair 'ysgrifenyddion' yn disgrifio'u gwaith, sef copio'r Torah a pharatoi'r dogfennau oedd eu hangen ar gymdeithas er mwyn iddi fedru byw yn ôl ei reolau. Roedd rhai ysgrifenyddion yn Phariseaid hefyd, ond nid pob un, gan mai galwedigaeth oedd hon yn y bôn, nid sect. Roedd y Phariseaid yn gwneud pob math o waith, yn cynnwys gwaith corfforol, a dim ond rhai oedd yn ysgrifenyddion.

Esgor ar y Mishnah

Yn y math o Iddewiaeth a ddatblygodd yn y canrifoedd hollbwysig wedi colli'r Deml, cynigiwyd canllawiau manwl ar sut i sancteiddio pob agwedd ar fywyd Iddewig. 'Doethion' oedd y dynion sanctaidd a oedd yn cynnig y rhain, a'u gwaith cyntaf, a phwysicaf, oedd y Mishnah, a gafodd ei gwblhau tua 200OG. Neges hanfodol y Mishnah yw fod yr Iddewon, er eu bod heb y Deml, yn dal i fod yn bobl sanctaidd. Mae'r ffermwr yn gorfod

Pwysigrwydd parhaol y Phariseaid

Roedd Sadwceaid y ganrif gyntaf yn gwbl wahanol i'r Phariseaid. Y prif wrthdaro rhwng y ddau grŵp hyn oedd union natur ac awdurdod traddodiad. Dysgai'r Sadwceaid mai dim ond y Torah ysgrifenedig oedd ag awdurdod. Roedden nhw'n gwrthod pob arfer a chred nad oedd yn bod yn llyfrau Moses, fel atgyfodiad y meirw. (Saith canrif yn ddiweddarach, ym Mabilonia, mynnai mudiad y Caraitaidd yn yr un modd y dylai'r Iddewon ddychwelyd at awdurdod y Beibl, gan gondemnio dehongliadau'r rabbinaidd.) Sect offeiriadol oedd y Sadwceaid, a'r Arch-Offeiriad oedd eu pennaeth; yn wir, roedden nhw wedi eu henwi ar ôl Sadoc, y prif offeiriad yn ystod teyrnasiad y brenin Dafydd a'r brenin Solomon. Safbwynt y Phariseaid a orfu, ac mae un esboniad diweddarach yn mynnu fod Duw wedi datgelu i Moses yr holl Feibl, y Talmud, y Midrash, a hyd yn oed yr atebion fyddai'n cael eu rhoi ar unrhyw adeg yn y dyfodol i gwestiynau rhywun a oedd yn astudio o ddifrif. Nid yw hyn yn golygu eu bod yn hawlio fod y Torah llafar yn ei grynswth wedi cael eu drosglwyddo yn ddigryfnid ond, yn hytrach, bod modd olrhain egwyddorion y dehongli a'r prif syniadau yn ôl at Moses. Tra bod y Torah ysgrifenedig yn sefydlog ac yn gysegredig, mae'r Torah llafar yn benagored ac yn esblygu o hyd. Beth sy'n hollbwysig, felly, yw dilyniant di-fwlch o rabbiniaid yn mynd yn ôl at *Moshe Rabbenu* ('Moses ein Hathro'). Dyna safbwynt Iddewiaeth Uniongred i'r dydd heddiw (gweler pennod 4): ni ellir newid y Torah ysgrifenedig ond cyfeirir ato beunydd wrth ymdrin â realiti bywyd cyfnewidiol.

Gwyddom fod grwpiau Iddewig eraill yn bod yng nghyfnod yr Ail Deml, yn cynnwys un yn Qumran, ger y Môr Marw. Cangen o'r Eseniaid oedd y rhain, ym mam y rhan fwyaf o ysgolheigion. Mae gwybodaeth am yr Eseniaid yn ngwaith yr awduron Josephus a Philo, ond cafwyd llawer o'r wybodaeth am arferion a chredoau'r sect o Qumran o'r sgroliau a gafodd eu darganfod rhwng 1947 a 1960 mewn ogofeydd yn yr ardal honno. Roedd y grwpiau hyn yn wahanol nid yn unig o ran credoau diwinyddol ond hefyd yn eu perthynas â'r Rhufeiniaid. Collodd yr Iddewon yr ymreolaeth roedd y Macabeaid wedi ei hennill yn 164 COG pan feddiannodd y Rhufeiniaid Jerwsalem yn 63 OG. O ddau brif grŵp y cyfnod, roedd y Phariseaid yn aml yn beirniadu'r awdurdodau oedd mewn grym, ond cafodd y Sadwceaid awdurdod seciwlar gan y Rhufeiniaid, fel y Groegiaid Ptolemaig cyn hynny. Roedd ganddyn nhw bŵer a chyfoeth cwbl anghymesur â'u nifer.

Gwelsom eiriau Hillel ym mhennod 1: ‘Beth bynnag fo’n gas gennyf, na wna hynny i’th gymydog’ (Shabbat 31a), sy’n ymwneud â darn allweddol:

Nid wyt i gasáu dy fraud yn dy galon . . . nid wyt i geisio dial ar un o’th bobl na dal dig tuag ato, ond yr wyt i garu dy gymydog fel ti dy hun.

(Lefiticus 19: 17-18)

Yn rhy aml o lawer, mae pregethau Cristnogol yn priodoli’r ymadrodd olaf yma i Iesu, fel pe bai wedi dyfeisio’r syniad o garu cymydog yn hytrach na’i ddyfynnu (Matthew 22: 39). Neu, fel arall, byddant yn cydnabod y dyfyniad ond yn pwysleisio dehongliad Iddewig o’r darn yn Lefiticus mai dim ond cyd-Iddewon sydd i gael eu caru, ac yn dadlau mai camp unigryw Iesu oedd ehangh hyn i gynnwys rhai nad ydynt yn Iddewon, a hyd yn oed gelysion, i brofi nad oedd dyngarwch Iddewig yn ddigonol.

Mae pregethwyr Cristnogol ac, yn amlach, y cyfryngau wrth sôn am ryw achos llys neu’i gilydd, yn dueddol o wrydroi darn arall yn Lefiticus, sef 24: 17-24, sy’n dweud ‘os bydd dyn yn cymryd bywyd unrhyw ddyn, rhaid ei roi i farwolaeth’ ac os bydd rhywun yn ‘niweidio’ i gymydog, rhaid gwneud yr un peth iddo yntau, briw am friw, llygad am llygad, dant am ddant’. (Cymharwch hyn ag Exodus 21: 23-25, a sylwch fod y goddefiad eisoes yn ymddangos os ‘na chynlluniodd hynny’, Exodus 21: 13.) Mae trafodaeth faith a chymhleth o’r egwyddor (y *lex talionis*), yn gyntaf yn y Mishnah (yn nhraethawd cyntaf ‘Iawndal’, Bava Kama 8: 1 ymlaen) ac yna yn y Talmud (Bava Kama 83b-84a). Dydy hi erioed wedi bod yn fater o ‘lygad am llygad’ yn llythrennol; y nod yw ceisio pennu iawndal am niwed i gymydog. Mae’r ffaith fod y Talmud yn ystyried pwy sy’n atebol am y niwed, am y boen, am wella, am golli amser, ac am y sarhad a ddioddefodd rhywun yn ymddangos yn hynod oleuedig (fel y gwelwn yn y darn o’r Talmud isod.) Mae’n drueni fod y testun yn cael ei ddyfynnu mor aml fel pe bai’n annog dial. Hanfod cariad at gymydog yw cydnabod ei fod yn ‘person fel chi’ neu yn yr ystyr o ‘rhoi’ch hun yn ei le’. ‘Dy elyn yw dialedd/O noddi hwn ni ddaw heddi’ meddai’r bardd, ac mae dal dig a’i ‘gadw’n gynnes’ yn debyg o arwain at yr union ymddygiad treisgar y mae’r gorchymyn i ymddwyn tuag at eraill fel yr hoffem iddyn nhw ymddwyn tuag atom ni yn ceisio’i atal. Dydy gorchymyn Lefiticus 19: 17-18 ddim yn gofyn i ni hoffi pobl eraill ond i gofio mai bodau dynol ydym oll.

Mae ymgais ddiddorol iawn i ddarganfod beth yn union mae caru cymydog yn ei olygu yn ymarferol yn nhrydydd traethawd

ufuddhau i’r rheolau ar drefn a strwythur sydd yn Lefiticus (fel rheolau’r flwyddyn sabothol) a rhaid i’r offeiriad, er nad ydyn nhw’n gallu cyflawni eu gorchwyl o offrymu yn y Deml, ufuddhau i rheolau Lefiticus ar eu cyfer (fel y rheolau cast ar gyfer priodi). Mae’r adegau sanctaidd, y Saboth wythnosol, y lleuad newydd bob mis, a’r gwyliau blynyddol yn parhau ers dyddiau’r Deml. Yn fwyaf arbennig, mae’r prydau bwyd ar yr ‘adegau penodedig’ yma yn mynd yn gysegredig, gyda’r bwrdd bwyd yn cymryd lle’r allor. Dyna sy’n rhoi ystyr i’r defodau (fel golchi dwylo) ac i’r litwrgi (fel dweud y fendith ar ôl prydau bwyd) sy’n dal i fod yn fynegiant mor bwysig o hunaniaeth yr Iddewon fel pobl sanctaidd.

Mae’r Mishnah’n ymdrin â chwe phrif faes mewn bywyd, gan ddangos fel y gall Iddewon eu sancteiddio yn eu bywyd bob-dydd. Mae pedwar o’r rhain yn ymwneud â gwasanaeth y Deml. Mae ‘Hadau’ yn egluro pa gyfran o’r cnydau ddylai gaeleu roi i’r offeiriad, ac adrannau arbennig eraill o gymdeithas, fel y tlodion. Mae ‘Gwyliau’ (neu ‘Adegau Penodedig’) yn ymwneud yn bennaf ag ymddygiad ar adegau arbennig fel Dydd y Cymod, y Pasg Iddewig, a gwyliau eraill. Mae ‘Pethau Crefyddol’ yn canolbwyntio ar y Deml a’r system offrymu. Mae ‘Purdebau’ yn ymdrin â deddfau amhurdeb defodol a sut y gall pobl buro’u hunain, ar sail deddfau a geir yn Lefiticus (yn enwedig Lefiticus 12-15). Mae’r ddwy adran ganol yn ymwneud â materion bob-dydd ‘Iawndal’, sef y gyfraith sifil a throeddol, a ‘Menywod’ sef materion teuluol, yr aelwyd a statws personol.

Chwe adran y Mishnah

<i>Zeraim</i>	–	Hadau
<i>Moed</i>	–	Adegau Penodedig (Gwyliau)
<i>Nashim</i>	–	Menywod
<i>Nezikin</i>	–	Iawndal
<i>Kodashim</i>	–	Pethau Sanctaidd
<i>Tohorot</i>	–	Purdebau

Mae pob adran (*seder*, lluosog *sedarim*) wedi ei rhannu’n draethodau byrrach (*tractates* yn Saesneg). Mae 63 o’r traethodau hyn i gyd.

Caru eich cymydog

Gwelsom eisoes rai enghreifftiau o’r adran ar ‘Fenywod’ (*Nashim*) ond dyma rai enghreifftiau pellach i ni o’r ychwanegiad yma at y Torah ysgrifenedig, o’r adran ‘Iawndal’ (*Nezikim*).

...paid â barnu dy gymydog nes i ti ddod i'w le ...
paid â dweud pan gaf hamdden, mi astudiaf – efallai
na chei di hamdden ... Mewn man lle nad oes dynion,
ceisia fod yn ddyn.

(Avot 2: 5–6)

Trafod y Mishnah – y Talmud

Er na chafodd ei gynhoi mewn ffurf gyhoeddedig tan 200 OG, mae'r Mishnah'n cynrychioli trafodaethau doethion am y Torah ysgrifenedig dros ganrifoedd lawer. Mae Hillel a Shammai, o ddiwedd y ganrif gyntaf COG a dechrau'r ganrif gyntaf OG, yn cael eu dyfynnu'n helaeth. Er nad ydym yn gwybod llawer am yr Hillel hanesyddol, fe sy'n cael y clod am lawer o ddyfarniadau sy'n cael eu derbyn heddiw, ac am y dywediadau o'r Pirke Avot uchod. Golygdd y casgliad sy'n ffurfio'r Mishnah heddiw oedd Rabbi Jwda y Tywysog (*Ha-Nasi*), 135–217 OG. Yr enw ar drafodaethau eraill (yn enwedig rhai'r Tannaim) sydd heb eu cynnwys yn y Mishnah yw'r *Tosefta* ('ychwanegiad'). Mae'r Tosefta wedi ei rannu'n chwe adran yr un fath â'r Mishnah.

Cwblhau'r Mishnah

Nid dyna derfyn y trafodaethau gan Rabbiniaid i geisio egluro mwy ar y Torah i ddibenion amgylchiadau newydd a phenodol. Mae 'llafar' yn ddisgrifiad da iawn am y Torah a ddilynodd y Torah ysgrifenedig oherwydd, yn y bôn, dyna ydoedd – cofnod o drafodaethau llafar mewn llysoedd barn ac academiau. Rhwng 200 a 400 OG, trafododd Rabbiniaid academiau Palestineina, sef Tiberias, Cesarea a Sephphoris, ddysgeidiaeth y Torah, ar ffurf astudiaethau o achosion unigol yn bennaf. Cafodd y trafodaethau hyn eu sgrifennu i lawr yn y pen draw, a'u hargraffu gyferbyn â'r darn o'r Mishnah oedd yn cael ei drafod, a'r enw arny'n nhw oedd y *Gemara* (yr Hebraeg am 'cwblhau' a'r Aramaeg am 'dysgu'). Roedd pobl yn credu fod yr archwiliadau hyn o'r Mishnah, oedd yn aml yn dudalennau o hyd, yn cwblhau'r Mishnah. Enw'r ddau gyda'i gilydd, y Mishnah ysgrifenedig a'r Gemara, oedd y *Talmud* (o'r Hebraeg, 'dysgu'). Cafodd ei gwblhau ym Mhalesteina erbyn tua 400 OG, a'r enw a roddir iddo yw'r *Yerushalmi*, sef Talmud Jerwsalem (er mai yng ngogledd yn hytrach na de Palestineina roedd yr academiau), ac mae'n ymdrin â 39 o 63 traethawd y Mishnah.

Roedd trafodaethau mwy manwl byth ar y Mishnah yn mynd yn eu blaen yn yr academiau Babilonaidd yn Sura a Pumbedita.

'Iawndal' (Bava Batra 2: 1–5). Yma, mae'r person dan sylw yn gymydog, yn llythrennol:

Chaiff neb gloddio dyfrgist ger llaw dyfrgist ei gyd-ddyn, na chloddio ffos, sefer, sianel ddŵr neu bull golchi dillad onid yw dri lled-llaw oddi wrth wal ei gyd-ddyn, a rhaid iddo ei wyngalchu ... Chaiff neb agor siop bobydd neu siop liwio is law storddy ei gyd-ddyn na [chadw] beudy gwartheg [ger llaw] ... caiff dyn brotestio yn erbyn [un arall sy'n agor] siop o fewn y beili a dweud wrtho 'ni fedraf gysgu oherwydd sw'n y morthwyl' neu 'oherwydd sw'n y meini melin' neu 'oherwydd sw'n y plant' ... Os yw wal un dyn yn cyffwrdd â wal ei gyd-ddyn, ni chaiff adeiladu wal arall yn cyffwrdd â hi heb fod bellter o bedwar cufydd i ffurdd ... Chaiff dyn ddim cadw ysgol o fewn pedwar cufydd i golomendy [ei gymydog] rhag ofn i'r bele neidio i mewn. Ni chaiff adeiladu ei wal o fewn pedwar cufydd i fargod to [ei gymydog], er mwyn i'r llall fedru pwyso i ysgol [i'w tanhau]. Chaiff neb gadw colomendy o fewn hanner can cufydd i dref, a chaiff neb adeiladu colomendy ar ei diriogaeth ei hun onid yw ei dir yn ymestyn hanner can cufydd i bob cyfeiriad ...

Er gwaetha'r eirfa hen-ffasiwn, mae hyn i gyd yn od o gyfarwydd yn yr oes fodern yma lle mae cymaint o ddadlau ynglŷn â phobl sy'n cadw anifeiliaid drevllyd neu ffyrnig mewn mannau sy'n rhy fach neu'n rhy agos at y tŷ drws nesa; yn rhedeg busnes swnllyd o'u cartref; ac yn adeiladu estyniadau sy'n dwyn golau eu cymdogion, difetha'u golygfa neu'n creu rhwystr. Nid hollti blew am ryw fanion y mae'r achosion ymarferol sy'n graidd i'r Mishnah, ond cynnig canllawiau hanfodol i gymdeithas allu cyd-fyw.

Mae rhagor o enghreifftiau o gyngor di-lol yn nawfed traethawd 'Iawndal'. Er bod ei gymeriad a'i arddull yn wahanol i weddill y Mishnah, y *Pirke Avot* ('Dywediadau'r Tadau') yw'r rhan symlaf i'w deall a'i dyfynnu, ac mae rhai o'i ymadroddion yn ddidmarhebol bellach:

Os nad wyf o'm plaid fy hun, pwy fydd o'm plaid? Ac os wyf o'm plaid fy hun yn unig, beth ydwyf i? Ac os nad yn awr, pa bryd?

(Avot 1:14)

Pam [talu iaundal]? Onid yw'r Gyfraith Ddwysol yn dweud 'Lygad am lygad'? Pam na dderbyniwn bymry'n llythrennol i olygu [tymu] llygad [y troseddur]? Peidiwch â meddwl bymry, oherwydd dysgwyr: Efallai y credwch lle tymodd ef lygad, y dylid tymu llygad y troseddur, neu lle torrodd fraich ymaith, y dylid torri braich y troseddur ymaith neu eto, lle torrodd goes rhywun, y dylid torri coes y troseddur. [Nid felly; oherwydd] dywedir, 'os bydd dyn yn taro unrhyw ddyn . . . 'Ac os bydd dyn yn taro unrhyw anifail . . . fel yn achos taro anifail, rhaid talu iaundal, felly befyd yn achos taro dyn, rhaid talu iaundal.

Mae'r Gemara yn mynd yn ei flaen i wahaniaethu rhwng colli aelod neu organ a cholli bywyd dynol. Does dim iaundal yn bosibl ar gyfer llofruddiaeth, dim ond y gosb eithaf.

Ar y chwith (neu ar y dde ar ffolio 'a' yn hytrach na 'b') i'r testun Mishnah a Gemara, mae esboniad gan Rashi (Rabbi Shelomo ben Yitzhak) oedd yn byw yn Ffrainc, 1040-1105. Mae Rashi'n ffigwr anferthol yn hanes Iddewiaeth a chyfansoddodd esboniadau dylanwadol dros ben ar yr holl Feibl a'r Talmud Babilonaidd. Mae ei esboniadau talmudaidd yn glir ac yn gryno dros ben, yn dangos y broses ddadlau a'r casgliad. Ar y llaw dde ar y dudalen hon ceir ychwanegiadau neu atodiadau i esboniad Rashi, y *Tosafot* (peidiwch â drysu rhwng hyn a'r Tosefta, yr atodiad i'r Mishnah). Mae'r rhain yn dechrau lle mae esboniadau Rashi'n dod i ben – yn wir, awduron y *Tosafot* cyntaf oedd meibion–yng–nghyfraith ac wyrion Rashi. Lledaenodd y gwaith yma o Ffrainc i'r Almaen a daeth i ben ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg.

Fel mae'r darn uchod yn dangos yn glir, mae'r Talmud yn ymdrin â darganfod y dwysol mewn amgylchiadau bob dydd (e.e. canlyniadau anaf corfforol). Y gwirionedd sy'n ei uno yw sancteiddrwydd ac felly mae'n ymdrin â mwya na moeseg yn unig. Fel mae Jacob Neusner yn dweud (*Invitation to the Talmud*, argraffiad diwygiedig, Harper and Row, 1984):

Yn ôl y dull Talmudaidd o feddwl, mae person yn cael ei ryddhau, nid ei gaethiwo, gan reswm, sy'n agor y ffordd at greadigrwydd gwirioneddol, sef y gwaith o ddod o hyd i – neu osod – ffurf a threfn ar anhrefn. Deuridd crai creadigrwydd yw'r dibwys . . . a'r hyn a uneir â'r dibwys yw datgelu, o fewn neu y tu hwnt i bethau syml anhrefn, y drefn, y strwythur cymhleth, cydlynad y cwbl . . . i'r rabbi Talmudaidd, yr agweddau mwyaf diddorol ar realiti yw'r dynol a'r

Cafodd y rhain eu golygu yn y pen draw (gan Rabbi Ashi a'i ddisgybl Rabbi Avina, erbyn 500 OG, yn ôl y traddodiad, er bod llawer yn credu fod y broses wedi parhau ymhell i mewn i'r ganrif wedi hynny), i ffurfio'r Talmud Babilonaidd, y *Bavli*. Er fod Gemara hwn yn ymdrin â llai o draethodau'r Mishnah na Talmud Jerwsalem, mae'r Talmud Babilonaidd yn llawer iawn hwy, gan fod pob trafodaeth yn hwy na'r drafodaeth Balestinaidd gyfatebol. Mae cyfieithad Saesneg ohono, a gyhoeddwyd gan Wasg Soncino, yn fwy na 15,000 o dudalennau o hyd. Mae ehangder a dyfnder y casgliad hwn, canlyniad tair canrif o ysgolheictod rabbonaidd, yn golygu fod yr Iddewon yn aml yn cyfeirio ato fel môr dwfn. Pan fydd pobl yn son am 'y Talmud' neu'n dyfynnu ohono, y Talmud Babilonaidd yw hwnnw. Cafodd ei greu gan yr esbonwyr gorau a'r dehonglwyr mwyaf deallus a chynhwysfawr, a dyma brif ffynhonnell awdurdod cyfreithiol a diwinyddol Iddewiaeth.

Cynllun y Talmud

Y testun sydd wedi ei argraffu ar dud. 46 yw ffolio 83b, tudalen agoriadol y gyfrol Bava Kama yn y Talmud. Mae testun Hebraeg y Mishnah yn dechrau gyda'r gair mewn teip trwm ar law dde uchaf y golofn ganolog. Mishnah yw'r gair am y paragraff ei hun, fel pob paragraffyn y Mishnah. Wedi'r ddwy lythren mewn teip trwm (sef yr Hebraeg am GM, neu gemara), yng nghanol yr unfed linell ar bymtheg, mae testun Aramaeg y Gemara ar y mishnah hwn yn cychwyn. Mae'n llenwi gweddill canol y dudalen. Mae testun y Mishnah (yn ôl Talmud Soncino, gol. I. Epstein, 1938) yn darllen fel a ganlyn:

Mae'r hwn sy'n niweidio cyd-ddyn yn mynd yn atebol iddo am bum peth: am ddibrisiant, am boen, am wella, am golli amser, ac am sarhad. Beth sy'n digwydd gyda 'dibrisiant'? Os tymnodd ei lygad, os torrodd ymaith ei fraich, neu os torrodd ei goes, ystyrir y person a niweidiwyd fel pe bai'n gaethwas yn cael ei werthu yn y farchnad, a gwneir prisiaid yn dweud faint oedd ei werth [yn flaenorol] . . . os ydyw wedi ei daro, rhaid iddo dalu costau meddygol. Pe bai briwiau [yn y cyfamser] yn datblygu ar ei gorff, pe bai hynny o ganlyniad i'r anaf, byddai'r troseddur yn atebol, ond os nad yw'n ganlyniad i'r anaf, câi ei esgusodi.

Mae'r testun Gemara, llawer hwy, yn dechrau:

reswm. Yn gyntaf, mae halachah'n cynnwys popeth sy'n rheoli ymddygiad person, sy'n faes llawer ehangach na'r hyn y byddai'n llysoedd barn ni yn ymdrin ag ef. Yn ail, mae'n disgrifio yn ogystal â gorchymyn. Mae'n disgrifio'r 'ffordd' mae pobl Duw yn gwneud pethau, gan ddefnyddio'r ffurf: 'Mae dyn yn gwneud hyn; dydy dyn ddim yn gwneud y llall', yn hytrach na'r gorchymyn: 'Gwnewch hyn; peidiwch â gwneud y llall'. Drwy halachah (lluosog *halachot*) mae'r Rabbiniaid yn ceisio tywys yr Iddewon i fyw eu bywydau, ffurfio cymdeithas, a gwasanaethu Duw yn y ffyrdd iawn, yn eu barn nhw. Mae'r cyfreithiau'n cael eu cyflwyno gyda golwg ar y dyfodol. Felly, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n gwbl ymarferol (fel y deddfau ym mhumed adran y Mishnah sy'n ymwneud â phurdebau'r Deml, lle'r oedd y Deml, erbyn 200 OG, eisoes yn adfeilion ers canrif a mwyl), maen nhw'n disgrifio sut fyddai pethau'n cael eu gwneud mewn byd delfrydol.

Aggadah

Enw'r traddodiadau storïol yw *aggadah*, o'r ferf Hebraeg 'dweud'. Mae'n dal i fynegi prif themâu'r grefydd Iddewig, ond ar ffurf anogaeth chwedlonol neu hanesyddol. Mae aggadah hefyd yn cynnwys gwyddoniaeth, doethineb gwerin a phynciau damcaniaethol diwinyddiaeth a moeseg, fel y maen nhw'n effeithio ar ymddygiad. Yn y Talmud mae'r rhan fwyaf o'r deunydd yn halachaid, er ei fod yn cynnwys rhywfaint o ddeunydd aggadig. Mae'r midrash bron i gyd, ar y llaw arall, yn aggadig, er bod rhywfaint ohono ar ffurf halachah. Roedd natur gwnaeth nifer o Rabbiniaid yr ail ganrif ddehongli'r ymadrodd 'ysbryd Duw' yn Genesis 1: 2. Mae un yn meddwl ei fod yn golygu 'gwynt', un arall ei fod yn golygu 'Adda' ac un arall 'Meseia'. Mae'r tri dehongliad yn cael eu cynnwys heb unrhyw ymgais i farnu pa un sy'n iawn. Eu grym barddonol yw'r hyn sy'n eu gwneud yn 'iawn'. Felly mae aggadah'n bwysig am ei fod yn dangos beth sydd y tu ôl i'r rheolau ymarferol, nid o safbwynt dysgeidiaeth ffurfiol fel y gred ddiwinyddol sydd yn sail i arfer Cristnogol, ond o safbwynt bywiogrwydd ac ysbrydoliaeth. Weithiau mae'r stori'n un faith, ond dyma dri darn byr iawn o'r Talmud (o *A Rabbinic Anthology*, gol. C.G. Montefiore a H. Loewe, Meridian Books, 1963) sy'n rhoi rhyw syniad:

Dyweddodd Rabbi Hanina ben Idi: Pam y mae geiriau'r Torah'n cael eu cyffelybu i ddŵr, fel y mae'n ysgrifenedig, 'Deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno' (Eseia 55: 1)? Er mwyn dangos fel y mae

cymdeithasol: y pentref, y cartref, yr unigolyn. Mae rhai wedi cyfeirio at Iddewiaeth Talmudaidd fel crefydd sosbenni a phadelli, oherwydd y pwyyslais ar sut a beth y mae dyn yn ei fwrta a'i yfed. A dyna ydyw, er nad bynnyn'n unig, oherwydd ei defnyddiau crai yw atomau anostyngadwy bywyd diriaethol.

Y Talmud, felly, yw uchafbwynt y broses o ddehongli'r Torah ysgrifenedig. Dros gyfnod o amser, mae pobl wedi mynd i'w ystyried yn fath o gôd cyfreithiol, yn seiliedig ar gyfarwyddyd ymarferol. Ond i ddechrau, roedd y prif enghreifftiau o gyfraith a dyfarniadau mewn achosion yn y Talmud yn fwy damcaniaethol nag ymarferol. Mae'n ymddangos mai'r ddadl oedd y peth pwysicaf, i'r Amoraim eu hunain ac i'r golygyddion. Mae'r ffaith fod adrannau cyfan ohono yn ymwneud ag addoli yn y Deml, pan oedd y Deml ei hun wedi cael ei dinistrio ganrifoedd cyn i'r Talmud gael ei lunio, yn dangos hyn. Roedd astudio'r gyfundrefn aberthu, erbyn cyfnod yr Amoraim, yn gwbl academaidd. Hyd yn oed pan fo deunydd testun y Talmud yn gwbl ymarferol, mae'r ddadl yn fynych yn cael ei chynnal mewn ffordd academaidd, fel pe bai camau'r ddadl yn bwysicach na'i chasgliad. Hyd yn oed pan fo Rabbiniaid yn cael eu henwi, dydy hi ddim o bwys a yw eu dadleuon yn wir neu'n ddychmygol. Beth sy'n bwysig yw eu dulliau wrth iddyn nhw holi ystyron geiriau ac ymadroddion, cymharu un set o ddeddfau ag un arall, a dod o hyd i egwyddorion gwaelodol y naill a'r llall.

Traddodiadau cyfreithiol (halachah) a thraddodiadau storïol (aggadah)

Tra'r oedd y Mishnah'n cael ei esbonio, ar yr un pryd roedd pobl wrthi'n dehongli'r ysgrifthur ei hun, a arweiniodd at y *midrashim* (yr esboniadau beiblaidd) y cyfeiriwyd atyn nhw yn mhennod 2. Felly, mae modd dosbarthu'r llenyddiaeth rabbiniaidd yn mishnah ac yn midrash. Ond mae ffordd arall hefyd o ddosbarthu llenyddiaeth rabbiniaidd, sef yn ôl ei genre llenyddol. Mae'r Torah ysgrifenedig ei hunan yn cynnwys deunydd crefyddol a deunydd storïol. Wrth i'r Torah llafar ddatblygu, datblygodd y traddodiadau ar ffurf deddfau a straeon hefyd.

Halachah

Enw'r traddodiad cyfreithiol yw *halachah* sy'n dod o'r ferf Hebraeg 'mynd' neu 'cerdded'. Felly, ystyr halachah yw 'y ffordd'. Mae'r gair Cymraeg, y 'Gyfraith', yn annigonol am ddau

system o atebion, *responsa*. Cai'r atebion ysgrifenedig hyn i gwestiynau eu casglu a'u cyhoeddi fel arfer, naill ai gan yr awduron eu hunain neu gan eu disgyblion. Parhaodd y broses o gwestiynu'r halachah ymhell ar ôl cyfnod y Geonim ym Mabilon. Mae'r atebwyr pwysicaf yn cynnwys Israel Isserlein o Awstria (1390-1460), Ezekiel Landau o Fohemia (1713-93), Joseph Saul Nathanson o Ukraine (1808-75), a Ben Zion Uziel o Balesteina (1880-1945).

Codau cyfreithiol

Oherwydd fod y môr yma o lenyddiaeth rabbainidd mor anferth, rhaid oedd mynd ati i drefnu'r halachah mewn codau, yn enwedig yn yr Oesoedd Canol. Mae'n anodd dod o hyd i'ch ffordd o gwmpas y Talmud nid yn unig am ei fod mor fawr ond oherwydd ei strwythur. Er gwaethaf enwau'r adrannau a'r traethodau, mae cyfeiriadau at bwnc neilltuol wedi eu gwasgaru yma ac acw drwy'r Talmud cyfan. Yn ôl Louis Jacobs (*The Structure and Form of the Babylonian Talmud*, CUP, 1991), ffurf lenyddol, yn hytrach na rhesymegol, sydd iddo. Mae manylion yn cael eu cynnwys lle byddant yn creu fwyaf o argraff yn hytrach na chael eu rhoi mewn trefn ddestlus, dull tebycach i ddrama neu nofel. Mae peryglon crynhoi cyfraith achosion gymhleth fel hyn yn amlwg, sef bod codau marw yn disodli traddodiad byw. Serch hynny, mae pedwar còd, yn enwedig, wedi bod yn ddylanwadol, am fod ar bobl angen gwybod canlyniad trafodaethau'r rabbiniaid yn hytrach na manylion pob trafodaeth. Y còd cyntaf yw casgliad gan y Rabbi Isaac Alfasi, a adwaenir wrth yr acronym 'Rif'. Paratodd hynny'r ffordd ar gyfer gwaith Maimonides yn y drydedd ganrif ar ddeg. Roedd ei *Mishneh Torah* ('Ailadrodd y Torah') yn sicrhau Iddewon Sbaen: 'o hyn ymlaen, bydd unrhyw un fydd yn darllen y Torah Ysgrifenedig ac yna'r llyfr hwn yn gwybod y Torah Llafar yn ei gyfanrwydd.' Yn y 14eg ganrif, daeth *Arba'ah Turim* Rabbi Jacob ben Asher. Mae'r còd hwn, sy'n golygu 'Pedair Rhes', yn cyflwyno deunydd yr halachah o dan bedwar pen: bywyd bobdydd a defodau; rheolau crefyddol fel y deddfau bywyd; y berthynas rhwng y ddwy ryw; y gyfraith sifil a throseddol.

Cafodd y pedwar dosbarth yma eu defnyddio yn y còd halachaid olaf, a mwyaf dylanwadol o bell fordd, sef y *Shulchan Aruch* ('Y Bwrdd Parod'). Rabbi Joseph Caro a gynhyrchodd y còd yma yn yr 16eg ganrif; fel Rif a Maimonides, bu'n byw am gyfnod yn Sbaen ond wedi iddo ddirodd ei erlid oddi yno, ymgartrefodd ym Mhalesteina, yn Safed, un o ganolfannau mawr

dûr yn gadael y mamau uchel a llifo i fannau isel, felly y mae geiriau'r Torah'n gadael yr hwn sydd drahaus, ac yn aros gyda'r hun sydd yn osfyngedig.

(Ta'anit 7a)

Gofynnodd yr Ymerawdr i Rabbi Josua ben Chananiah, 'Beth sy'n rhoi'r fath arogl i'ch cig-Saboth?' Atebodd yntau, 'Mae gennym bêrlysieun o'r enw Saboth, sy'n cael ei roi yn y coginio, a dyna sy'n rhoi iddo ei saur.' Dywedodd yr Ymerawdr, 'Rhouch beth o'r bêrlysieun hwn i mi.' Atebodd yntau, 'I'r hwn sy'n cadw'r Saboth, mae'r bêrlysieun yn gweithio, i'r hwn nad yw'n ei gadw. nid yw'n gweithio.'

(Shabbat 119a)

Pam y crewyd dyn ar ddydd Gwener: Er mwyn gallu dweud wrtho, pe bai'n mynd yn drahaus, Crewyd y gwybedyn o'th flaen di.

(Sanhedrin 38a)

Y Geonim

Halachah, y traddodiad cyfreithiol, yw'r gadwyn rhwng yr oesoedd cynnar a heddiw. Fel traddodiad byw, mae'n gorfod ymaddasu beunydd i anghenion cyfnewidiol pobl go iawn. Pan fydd pobl yn astudio pynciau sy'n ymddangos yn amherthnasol i fywyd heddiw, pwrpas hynny yw gweld sut y gellir cymhwyso'r deddfau gwreiddiol. Mae cysylltiadau'n dal i gael eu ffurfio gyda byd delfrydol y Talmud. Mae'r rhestr isod yn rhoi enwau'r rheini a drosglwyddodd y traddodiad o oes i oes:

Soferim	200-0 COG
Tannaim	0-220 OG
Amoraim	220-c. 500 OG
Savoraim	500-c. 650 OG
Geonim	650-1050 OG

Yr olaf o'r rhain, y Geonim (sef lluosog *Gaon*, 'ardderchowgrwydd') oedd penaethiaid academaiau rabbainidd blaenllaw Babilon. Gaon enwocaf yr academi yn Sura oedd Saadiah yn y ddegfed ganrif. Wrth i rabbiniaid o lawer gwlad anfon cwestiynau am ddyfarniadau'r Talmud at y Geonim, datblygodd

dysg Iddewig. Cafodd y Shulchan Aruch ei dderbyn gan y rhan fwyaf o Iddewon Seffardig ac yn ddiweddarach gan yr Ashkenazim, wedi i'r ysgolhaig Pwylaidd, Rabbi Moses Isserles, ychwanegu nodiadau ato. Yr enw ar y nodiadau hyn, oedd yn ymdrin ag arfer yr Ashkenazim, oedd y *Mappeh*, sef y 'Lliain Bwrdd' ar gyfer y Bwrdd Parod.

Mae'r pynciau sydd dan sylw yn y Shulchan Aruch yn cynnwys gwahardd defnyddio llysoedd an-Iddewig; deddfau ar ymweld â chleifion; a deddfau ynglŷn â halltu cig, fel y gwelwn yn yr enghreifftiau a ganlyn:

Hyd yn oed os oes gan y pleintydd ddogfen sy'n dweud y caiff wysio'r amddiffynydd o dan gyfraith y Cenhedloedd – ni chaniateir iddo ei wysio ger bron llysoedd y Cenhedloedd . . . Mae ymweld â'r cleifion yn ddyletswydd crefyddol. Caiff perthnasau a frindiau alw heibio ar unwaith, a dieithriaid ar ôl tridiau, Os bydd dyn, fodd bynnag, yn mynd yn sâl yn sydyn, caiff y naill grŵp a'r llall alw i'w ueld ar unwaith . . . Ni ddylid ymweld â'r rheini sy'n dioddef o afiechyd y coluddion, neu'r llygaid, neu o gur pen. Yn yr un modd, ni ddylid ymweld yn bersonol ag unrhyw un sydd yn ddifrifol wael, y byddai siarad yn niweidiol iddynt, ond gellir galw heibio i ystafell allanol a holi, a gweld a oes ar y claf angen rhywun i ysgubo a pherwrogi ei ystafell, neu gyflawni gwasanaeth tebyg iddo. A dylid ymddiddori yn ei afiechyd a gweddio drosto . . . Yn achos rhai sy'n dioddef o afiechyd y coluddion, y ddeddfyw na ddylai dyn ofalu am fenyw, ond y caiff menyw ofalu am ddyn . . . Ni ddylai'r halen fod mor fân â blawd, rhag iddo doddi ar unwaith yn y cig heb dynnu'r gwaed ohono. Ni ddylai ychwaith fod yn arw iawn, neu bydd yn syrthio oddi ar y cig. Yn hytrach, dylai'r gronynnau fod o faint canolig, fel yr halen a ddefnyddir i goginio; a dylai fod yn sych, er mwyn iddo allu cael ei daenu'n rhwydd.

Yn y bennod hon byddwch yn dysgu:

- am y parhad rhwng Uniongrededd ac Iddewiaeth rabinaidd
- sut y bu'n rhaid i Uniongrededd ei diffinio ei hun yng nghyfnod y rhyddfrefniad a'r oleuedigaeth
- am wreiddiau a datblygiad Chasidiaeth.

04 Iddewiaeth uniongred